WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyngor Sir Ddinbych

## Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

### Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Gorffennaf 2010



**Cyf: 340A2010**
Llun trwy garedigrwydd Cyngor Sir Ddinbych
Arweiniwyd Tîm Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych gan Stephen Martin (Arweinydd Asesu Gwelliant) a Karen Lees (Cydlynydd Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Alan Morris (Partner)

# Mae arweinyddiaeth dda yn ysgogi newid, sy'n golygu bod Cyngor Sir Ddinbych mewn sefyllfa dda i ddarparu gwell canlyniadau er gwaethaf gwendidau presennol mewn rhai trefniadau

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
**Ffôn: 029 2032 0500**
**Ffacs: 029 2032 0600**
**Ffôn Testun: 029 2032 0660**
**E-bost: info@wao.gov.uk**
**Gwefan: www.wao.gov.uk**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych  fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk



# Cynnwys


Crynodeb 4

Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â gwelliant dros amser 6

Mae'r Cyngor wedi adfer ei hun ar ôl cyfnod anodd a bellach mae ganddo amcanion cliriach a threfniadau sy'n gwella a all arwain at ganlyniadau gwell 6

Cyn 2008, profodd y Cyngor gyfnod anodd lle gwelwyd arweinyddiaeth aneffeithiol ac roedd rhai gwasanaethau yn anfoddhaol 6

Ers hynny, mae arweinyddiaeth wleidyddol fwy sefydlog a threfniadau rheoli newydd wedi pennu amcanion cliriach ac maent yn creu diwylliant o uchelgais a bod yn agored i newid 7

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod yn wynebu heriau mawr ond mae'r trefniadau gwell yn rhoi sail dros fod yn obeithiol y gall droi ei gynlluniau yn ganlyniadau cadarnhaol 7

Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella 9

Mae arweinyddiaeth dda yn arwain newid gyda llywodraethu, polisi a strategaeth, gwaith partneriaeth a phrosesau busnes yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol, er nad yw trefniadau cwbl effeithiol ar gyfer gwneud y defnydd gorau o staff ac adnoddau ar waith eto 9

Mae trefniadau'r Cyngor yn dangos cryfderau arbennig mewn perthynas ag arweinyddiaeth 9

Mae llywodraethu, polisi a strategaeth, gwaith partneriaeth, a phrosesau busnes yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol er eu bod oll yn cael eu datblygu ymhellach 9

Dim ond yn rhannol y mae trefniadau ar gyfer gwneud y defnydd gorau o adnoddau a staff yn cefnogi gwelliant 13

# Crynodeb

1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

2 Er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal:

- Asesiad Corfforaethol – adolygiad o drefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – i asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ar ei gyfer.

3 Yn y modd hwn gellir cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob cyngor mewn dull safonol. Gyda'i gilydd bydd y ddau asesiad hyn yn sail i adroddiad blynyddol i ddinasyddion, a elwir yn Adroddiad Gwella Blynyddol.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith yr Archwilydd Penodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad Corfforaethol.

5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol a oedd yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus. Mae effaith bosibl y gostyngiadau mewn gwariant ar lywodraeth leol hefyd wedi'i hamlygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mehefin 2010, dywedodd CLILC nad oes modd dianc rhag y ffaith y bydd angen i bob rhan o'r sector cyhoeddus archwilio ei gwariant cyhoeddus a'r gwasanaethau a ddarperir - ni ellir datrys y diffyg drwy effeithlonrwydd yn unig. Er mwyn ymateb i'r her hon, rhaid i awdurdodau lleol adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a sut y cânt eu darparu o'r bon i'r brig, yn cynnwys ystyried opsiynau ar gyfer gwella dulliau caffael yn hytrach na darparu gwasanaethau a gweithio ar y cyd. Paratowyd yr Asesiad Corfforaethol yn y cyd-destun hwn.

6 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn: 'A yw trefniadau'r Cyngor yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'

7 Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith hyd at fis Ebrill 2010. Gan mai ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn mae llawer o feysydd lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a



monitro cynnydd yn y misoedd i ddod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.

8 Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw bod: Arweinyddiaeth dda yn ysgogi newid, sy'n golygu bod Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) mewn sefyllfa dda i ddarparu gwell canlyniadau er gwaethaf gwendidau presennol mewn rhai trefniadau.

9 Gwnaethom seilio ein casgliad ar ein hasesiad o gynnydd y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i gefnogi gwelliant. Ceir esboniad manwl o'r casgliadau hyn yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad yn y drefn honno. Canfuwyd y canlynol:

- mae'r Cyngor wedi adfer ei hun ar ôl cyfnod anodd a bellach mae ganddo amcanion cliriach a threfniadau sy'n gwella a all arwain at ganlyniadau gwell; ac
- mae arweinyddiaeth dda yn arwain newid gyda llywodraethu, polisi a strategaeth, gwaith partneriaeth a phrosesau busnes yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol, er nad yw trefniadau cwbl effeithiol ar gyfer gwneud y defnydd gorau o staff ac adnoddau ar waith eto.

## Arolygiad arbennig

10 Yn seiliedig ar yr Asesiad Corfforaethol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal Arolygiad Arbennig o'r Cyngor o dan adran 21 o'r Mesur.

## Argymhellion

11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella i'r Cyngor o dan adran 19 o'r Mesur nac argymell y dylai Gweinidogion Cymru ddarparu cymorth i'r Cyngor drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur.

## Meysydd ar gyfer gwelliant

12 Mae'r asesiad wedi nodi'r meysydd canlynol lle rydym yn argymell bod y Cyngor yn cymryd camau.

**Arddangosyn 1: Meysydd ar gyfer gwelliant**

| | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu ei gynlluniau i symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau a chraffu ymhellach er mwyn sicrhau bod rolau yn glir ac y rhoddir amser i'r materion a ystyrir y mwyaf pwysig. |
| C2 | Dylai'r meini prawf llwyddiant ar gyfer cyflawni'r uchelgais i fod yn gyngor sy'n perfformio'n dda ac sy'n agosach at y gymuned gael eu mynegi'n gliriach er mwyn gallu asesu lefelau cynnydd. |
| C3 | Dylai arweinwyr y Cyngor wella'r ffordd y maent yn asesu eu dulliau gwerth am arian a sut y caiff hyn ei gyfleu, fel bod gan aelodau etholedig a swyddogion well dealltwriaeth o'r cynnydd a wneir wrth wella effeithlonrwydd. |

# Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â gwelliant dros amser

## Mae'r Cyngor wedi adfer ei hun ar ôl cyfnod anodd a bellach mae ganddo amcanion cliriach a threfniadau sy'n gwella a all arwain at ganlyniadau gwell

### Cyn 2008, profodd y Cyngor gyfnod anodd lle gwelwyd arweinyddiaeth aneffeithiol ac roedd rhai gwasanaethau yn anfoddhaol

13 Crëwyd y Cyngor presennol ym 1996 ar ôl i Gyngor Sir Clwyd ddod i ben, ac yn ystod ei flynyddoedd cynnar canolbwyntiwyd i raddau helaeth ar greu sefydlogrwydd ariannol. Erbyn 2004, roedd y Cyngor wedi gwella'r sefyllfa ariannol ond yn dilyn hynny cafwyd cyfres o newidiadau mewn arweinyddiaeth ac adroddiadau gan reoleiddwyr allanol a oedd yn feirniadol o wasanaethau.

14 Roedd adroddiadau gan Estyn yn 2005 a 2007 yn beirniadu agweddau ar ddarpariaeth addysgol a dulliau rheoli a chafwyd bod llawer o rwystrau i welliant. Nododd arolygiad o wasanaethau plant gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn 2006, er bod rhai plant yn cael gwasanaeth da, roedd y Cyngor, ar y cyfan, yn darparu gwasanaethau a oedd yn anghyson ac roedd y Cyngor mewn sefyllfa ansicr i gynnal a gwella gwasanaethau.

15 Roedd cydberthnasau rhwng grwpiau aelodau etholedig a swyddogion yn anodd ac yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd newidiadau yn y rhan fwyaf o swyddi uwch swyddogion ac yn arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor.

16 Cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol arolygiad llywodraethu corfforaethol o dan adran 10A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 a nododd yr adroddiad, ym mis Tachwedd 2008, er bod arweinyddiaeth wleidyddol wedi gwella, nad oedd uwch swyddogion yn darparu'n gyson y lefel o gyfarwyddyd a disgyblaeth gorfforaethol yr oedd ei hangen. Er bod arwyddion o welliant graddol mewn rhai gwasanaethau, nodwyd bod y rhain yn anghyson ac nad oedd trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn debygol o sicrhau ei fod yn cyflawni ei agenda heriol dros newid.

17 Arweiniodd yr adroddiadau allanol at benodi Bwrdd Adfer Addysg Annibynnol ynghyd â Grŵp Cyfeirio Allanol (yn dilyn yr adroddiad llywodraethu corfforaethol).



## Ers hynny, mae arweinyddiaeth wleidyddol fwy sefydlog a threfniadau rheoli newydd wedi pennu amcanion cliriach ac maent yn creu diwylliant o uchelgais a bod yn agored i newid

**18** Roedd yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol yn 2008 wedi nodi bod gan yr Arweinydd ddisgwyliadau uchel ar gyfer gwelliant a rannwyd gyda'i gyd-aelodau yn y Cabinet. Mae gan gynghorwyr arweiniol broffiliau portffolio sy'n gwneud eu rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir, ac mae'r Arweinydd yn monitro cynnydd. Mae'r sefydlogrwydd gwleidyddol wedi parhau gydag arweinyddiaeth gan Gabinet aml-blaid.

**19** Ym mis Tachwedd 2007, penodwyd Dr Mohammed Mehmet yn Gyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro ar gyfer Dysgu Gydol Oes i arwain yr ymateb i arolygiad Estyn. Gwnaeth y Cyngor gynnydd da wrth ddarparu ei gynllun gweithredu ar ôl arolygiad Estyn ac ym mis Mai 2009, penodwyd Dr Mehmet yn Brif Weithredwr. Penodwyd cyfarwyddwr corfforaethol newydd ar gyfer Dysgu Gydol Oes ym mis Mawrth 2009. Daeth ail arolygiad diweddar gan Estyn i'r casgliad bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da ar ei gynllun gweithredu. Nododd hefyd fod y Cyngor wedi ailstrwythuro ei dîm arwain i gyflawni safon dda o arweinyddiaeth; mae'r Prif Weithredwr wedi cyflwyno 'diwylliant newydd o uchelgais a dyhead'.

**20** Mae Cynllun Corfforaethol 2009-2012 yn pennu blaenoriaethau clir ynghyd â'r bwriad i ddod yn 'Gyngor sy'n Perfformio'n Dda ac sy'n Agosach at y Gymuned'. Uchelgais y Cyngor yw perfformio ymhlith hanner uchaf yr awdurdodau yng Nghymru ar gyfer pob un o grŵp o 23 o ddangosyddion perfformiad strategol cenedlaethol. Pennwyd pedair blaenoriaeth gorfforaethol ynghyd ag amcanion a thargedau ar gyfer meysydd gwasanaeth eraill.

## Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod yn wynebu heriau mawr ond mae'r trefniadau gwell yn rhoi sail dros fod yn obeithiol y gall droi ei gynlluniau yn ganlyniadau cadarnhaol

**21** Ym mis Ionawr 2010, nododd yr Archwilydd Penodedig a'r Rheolwr Cydberthynas yn eu Llythyr Blynyddol fod dechrau da wedi'i wneud ar gyfer gwella'r broses o redeg y Cyngor ac mae'r Asesiad Corfforaethol hwn yn dangos bod cynnydd pellach wedi'i wneud. Fodd bynnag, mae angen gwneud llawer o waith pellach i gyflawni'r gwelliannau mewn trefniadau ac mewn canlyniadau i ddinasyddion y mae'r Cyngor yn anelu at eu cyflawni.

**22** Mae'r Cyngor wedi bod yn ymwybodol ei fod yn wynebu heriau mawr i wella gwasanaethau i ddinasyddion tra'n disgwyl hinsawdd ariannol anodd ac mae wedi cymryd nifer o gamau gweithredu arwyddocaol a fydd yn cynorthwyo gwelliant yn gadarnhaol. Ymhlith y rhain mae'r canlynol:

- y defnydd o fyrddau aelodau/swyddogion i ysgogi prif flaenoriaethau;
- penodi cyfarwyddwr corfforaethol i arwain gwaith moderneiddio a gwella ac i roi cyfle i ganolbwyntio ar y newidiadau sydd eu hangen;

- sefydlu rhaglen ‘drawsnewid’ gyda phedair ffrwd waith i ddatblygu newidiadau radical i drefniadau darparu gwasanaethau ac i sicrhau effeithlonrwydd; ac

- adolygiad o drefniadau llywodraethu i gefnogi dull mwy effeithiol o wneud penderfyniadau a chraffu.



# Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

## Mae arweinyddiaeth dda yn arwain newid gyda llywodraethu, polisi a strategaeth, gwaith partneriaeth a phrosesau busnes yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol, er nad yw trefniadau cwbl effeithiol ar gyfer gwneud y defnydd gorau o staff ac adnoddau ar waith eto

### Mae trefniadau'r Cyngor yn dangos cryfderau arbennig mewn perthynas ag arweinyddiaeth

**23** Caiff y Cyngor ei arwain yn dda gan yr Arweinydd, y Cabinet a'r uwch swyddogion sy'n rhoi cyfarwyddyd clir i'r Cyngor. Mae'r pleidiau gwleidyddol sy'n gysylltiedig yn rhannu'r gefnogaeth ar gyfer y cyfarwyddyd i'r Cyngor.

**24** Mae'r Arweinydd yn gweithio'n effeithiol i sicrhau dull cadarn o gyfathrebu â phob plaid wleidyddol ac i gynnal y ffocws ar faterion allweddol. Nododd ail-arolygiad Estyn yn 2010 fod yr 'Arweinydd yn gweithio'n dda gyda phob plaid wleidyddol i gyflawni ymrwymiad trawsbleidiol i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i addysg'.

**25** Mae'r Prif Weithredwr wedi sefydlu tîm arwain cadarn ac, fel y nodwyd uchod, wedi cyflwyno 'diwylliant newydd o uchelgais a dyhead'. Cafwyd bod y gydberthynas rhwng cynghorwyr a swyddogion yn dda a bod rheolwyr o bob rhan o'r Cyngor yn cydnabod ac yn croesawu'r arweinyddiaeth gadarnhaol.

**26** Mae arweinyddiaeth y Cyngor wedi gallu darparu arweinyddiaeth cymunedol a phresenoldeb da - er enghraifft, drwy ymgysylltiad helaeth â'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol, cyfarfodydd â fforymau cymunedol lleol a chyflwyno datblygiadau gyda Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

## Mae llywodraethu, polisi a strategaeth, gwaith partneriaeth, a phrosesau busnes yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol er eu bod oll yn cael eu datblygu ymhellach

### Mae trefniadau llywodraethu yn gymharol effeithiol erbyn hyn er bod cynlluniau i sicrhau cynnydd pellach

**27** Yn dilyn yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol, lluniwyd cynllun gweithredu gan y Cyngor. Ym mis Mehefin 2009, cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru nodyn briffio i'r Grŵp Cyfeirio Allanol. Dywedodd hwn fod y cynllun gweithredu yn mynd i'r afael â'r materion yn yr adroddiad ond bod iddo nifer o wendidau sylweddol yn cynnwys y ffaith ei fod yn rhy gymhleth ac nad oedd yn cynnwys digon o eglurder am rolau a chyfrifoldebau. Ymatebodd y Cyngor yn gadarnhaol ac adolygodd y cynllun gweithredu a rhoddwyd dull gweithredu newydd, symlach ar waith. Mae 'Bwrdd Agenda Penodol' a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn monitro cynnydd ar y

cynllun gweithredu. Dengys adroddiadau diweddar fod cynnydd da yn cael ei wneud bellach, er megis cychwyn y mae rhai o'r newidiadau o hyd.

**28** Ymhlith y datblygiadau roedd cyflwyno hunanasesiad o wasanaethau a phrosesau ar gyfer adolygiadau herio gwasanaethau. Er nad oedd y cylch cyntaf o hunanasesiadau yn cynnwys y lefel angenrheidiol o her, bydd yr adolygiadau herio gwasanaethau yn darparu hyn. Cafwyd diwygiadau hefyd i gylch gorchwyl y Bwrdd Agenda Penodol a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ynghyd â rhai gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer pwyllgorau craffu.

**29** Mae'r pwyllgorau craffu wedi amrywio ond maent wedi bod yn effeithiol ar y cyfan yn darparu her wybodus, amhleidiol. Canfu ail-arolygiad Estyn fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da iawn yn gwella ansawdd y broses o graffu ar ddysgu gydol oes. Mae swyddogion yn darparu gwybodaeth dda i aelodau sy'n adolygu gwasanaethau yn heriol ac yn craffu arnynt yn effeithiol. Mae pedwar pwyllgor craffu ar hyn o bryd sy'n cwmpasu pedair 'cyfarwyddiaeth' y gyfarwyddwyr corfforaethol. Rhoddir ystyriaeth i newid y trefniadau hyn wrth i'r pwyslais gael ei symud o'r cyfarwyddiaethau i ddulliau gweithredu mwy trawsbynciol.

**30** Mae'r Cyngor yn defnyddio byrddau aelodau a swyddogion i arwain gwaith ar y prif flaenoriaethau corfforaethol ac mae llawer o grwpiau aelodau/swyddogion eraill. Mae'r rhain wedi darparu ffocws ar gyfer trafod materion allweddol ond nid ydynt yn rhan o'r trefniadau gwneud penderfyniadau a chraffu cyfansoddiadol.

**31** Ar hyn o bryd, mae aelodau'r Cabinet yn gweithredu fel deiliaid portffolio ac aelodau arweiniol ar gyfer meysydd penodol ond prin iawn yw eu pwerau gwneud penderfyniadau.

**32** I sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn darparu'r gefnogaeth orau ar gyfer gwella yn y dyfodol, dylai'r Cyngor symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau a chraffu i sicrhau bod rolau yn glir ac y rhoddir amser i'r materion y rhoddir y pwys mwyaf arnynt.

### Mae'r Cyngor eisoes yn gweithio drwy bartneriaethau i gyflawni gwelliant ac mae'n bwriadu datblygu hyn ymhellach

**33** Mae'r Cyngor eisoes yn gweithio'n agos mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Conwy mewn nifer o feysydd, yn cynnwys cyd-bennaeth gwasanaeth ar gyfer priffyrdd, a gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a rennir. Daethpwyd i gytundeb i gydweithio ymhellach ym maes gwasanaethau plant ac integreiddio'r timau goleuadau stryd a gwaith ar y stryd.

**34** Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr wedi chwarae rôl allweddol i sefydlu 'gweledigaeth' Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ynghyd â rhaglen ar gyfer newid a'r Prif Weithredwr yw prif weithredwr noddi bwrdd rhaglen dysgu gydol oes Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae gan y gwaith cynllunio rhanbarthol y posibilrwydd o arwain at welliant sylweddol drwy gydweithio. Mae'r Cyngor hefyd yn cyfrannu at waith partneriaeth rhanbarthol presennol ac arfaethedig drwy Gydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru a Phartneriaeth Trin Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae hefyd yn ymwneud â Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2010.



35 Y Cyngor yw'r awdurdod cynnal ar gyfer cyd-benodiadau rhanbarthol yn cynnwys cydlynydd Cydweithredfa Gogledd Cymru a Chynrychiolydd Rheoli Awdurdod Lleol Rhanbarthol (Llysgennad) ar gyfer chwe chyngor Gogledd Cymru ar Dîm Rheoli Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

36 Mae'r Cyngor yn ymwneud yn weithredol â Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesedd Llywodraeth y Cynulliad a'r Prif Weithredwr yw Cadeirydd y grŵp llywio 'Caffael a Chomisiynu Cydweithredol'.

37 Mae Bwrdd Gwasanaeth Lleol Sir Ddinbych yn datblygu ac yn cyfrannu at welliant. Mae Pum Cytundeb Cyflawni Lleol ar waith ar gyfer datblygiadau sydd wedi'u halinio'n agos â blaenoriaethau'r Cyngor:

- Ymgysylltu â Chymunedau Sir Ddinbych
- Lleihau Amddifadedd yng Ngorllewin a De-orllewin y Rhyl
- Darparu'r sgiliau cywir ar gyfer gweithlu Sir Ddinbych ar hyn o bryd ac yn y dyfodol
- Gwneud gwell defnydd o asedau Sir Ddinbych
- Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol

38 Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid, er bod y broses o ail-gyflunio cyrff iechyd yn ddiweddar wedi effeithio ar rai trefniadau.

39 Fel rhan o'n gwaith pellach, byddwn yn ystyried barn partneriaid, cyflenwi Cytundebau Cyflawni Lleol a monitro cynnydd strategaethau partneriaeth a datblygiadau.

**Bydd y fframwaith polisi a strategaeth yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol**

40 Mae Cynllun Corfforaethol 2009-12 y Cyngor yn pennu blaenoriaethau clir sy'n ddealladwy ac sy'n gallu arwain ffocws yr awdurdod. Mae'r Cynllun yn nodi'r bwriad i ddod yn 'Gyngor sy'n Perfformio'n Dda ac sy'n Agosach at y Gymuned'. Sefydlodd bedair 'Thema Gwella' i arwain y ffordd y mae'r Cyngor yn symud ymlaen, sef:

- Canolbwyntio ar y Gymuned a'i Phobl
- Diwylliant Perfformiad Da yn Darparu Gwerth am Arian
- Allblyg ei Olygon
- Dull Llywodraeth ac Arwain Cadarn ar gyfer Gwelliant

41 Mabwysiadwyd pedair blaenoriaeth gorfforaethol eang:

- Newid Demograffig
- Adfywio ein Cymunedau
- Moderneiddio Addysg
- Ffyrdd ac Amddiffyn rhag Llifogydd

42 Ar gyfer pob blaenoriaeth, mae'r Cynllun yn rhoi syniad o'r nodweddion llwyddiant ac yn rhoi grŵp bach o fesurau canlyniadau. Pennwyd amcanion a thargedau pellach ar gyfer pob cyfarwyddiaeth. Mae amcanion y Cyngor wedi'u cysylltu'n agos â'r rhai yn Strategaeth Gymunedol Sir Ddinbych 2005 a'r strategaethau partneriaeth statudol (y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, a'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol).

43 Caiff pob un o'r pedair blaenoriaeth eu harolygu gan fwrdd aelodau a swyddogion. Teimlir bod y blaenoriaethau yn glir ac yn ddealladwy ar y cyfan. Fodd bynnag, teimlai rhai aelodau a swyddogion nad oedd y dull o ymdrin ag adfywio ledled y sir gyfan yn ddigon datblygedig i roi darlun digon eang o adfywio neu i gyfateb ag anghenion y trefi gwahanol.

44 Mae'r 'Cynllun Blwyddyn 2' y cytunwyd arno yn ddiweddar, sef Cyflawni Cynllun Corfforaethol 2010-11, yn nodi'r trefniadau cyflawni ar gyfer y flwyddyn i ddod ond mae hefyd yn ychwanegu'r flaenoriaeth o 'Wella'r Cyngor mewn Hinsawdd Heriol' ac yn dangos goblygiadau cyflawni'r Cynllun Corfforaethol ym mhob un o chwe 'ardal gymunedol' y sir.

45 Caiff yr amcan i ddod yn 'Gyngor sy'n Perfformio'n Dda ac sy'n Agosach at y Gymuned' ei fesur yn rhannol gan y cynnydd o ran perfformio ymhlith hanner uchaf yr awdurdodau ar gyfer basged o 23 o ddangosyddion erbyn 2012. Nid yw o reidrwydd yn glir y bydd bod ymhlith hanner uchaf y cynghorau yn cyfateb i berfformio'n dda. Gallai hyn fod yn berfformiad sydd ychydig yn well na'r cyffredin yn unig. Mae'r Cyngor yn bwriadu mesur p'un a yw'n 'agosach at y gymuned' drwy gynnydd ar gyflawni canlyniadau'r blaenoriaethau corfforaethol a thrwy ystyried canlyniadau arolwg preswylwyr a gynhelir bob yn ail flwyddyn yn unig. Efallai y gall y Cyngor fireinio'r ffordd y bydd yn mesur llwyddiant yn erbyn ei uchelgais cyffredinol er mwyn iddo allu asesu lefelau cynnydd.

46 Fel rhan o'n gwaith pellach, byddwn yn monitro datblygiad y Strategaeth Gymunedol newydd, yn ystyried grŵp ehangach o bolisïau, ac yn ystyried a yw trefniadau ar gyfer ymgysylltiad cymunedol a dulliau cyfathrebu yn cefnogi'r broses o gyflawni'r strategaethau hyn yn llawn.

## Mae prosesau busnes yn cefnogi gwelliant ar y cyfan ond nid yw effeithiolrwydd newidiadau diweddar yn glir eto

47 Mae'r Cyngor wedi pennu ei amcanion a'i dargedau perfformiad mewn dull cymharol glir ac mae ganddo ystod o ddulliau priodol ar waith ar gyfer monitro a chyflwyno adroddiadau. Nododd ail-arolygiad Estyn fod gan y Cyngor brosesau da ar waith i fonitro cynnydd ac i nodi meysydd i'w datblygu.

48 Mae gan y Cyngor broses 'Rheoli Newid' i arwain adolygiadau o feysydd gwasanaeth, yn enwedig 'gwasanaethau galluogi' a nodwyd fel rhai y mae angen eu newid yn sylweddol ond bu gwendidau wrth weithredu'r trefniadau hyn ar y dechrau. Rydym hefyd wedi dod ar draws llwyddiant cymysg o ran rheoli prosiectau.

49 Yn dilyn penodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Lywodraethu ac Effeithlonrwydd a'r Pennaeth newydd dros Gynllunio a Pherfformiad, mae newidiadau'n cael eu gwneud i wella prosesau busnes. Mae cylch cynllunio busnes cliriach wedi'i lunio, mae canllawiau newydd ar reoli rhaglenni a phrosiectau wedi'u datblygu, ac mae camau wedi'u cymryd i wella'r defnydd o ddulliau rheoli risg o fewn gwasanaethau. Nid yw'n glir eto a fydd y newidiadau hyn yn effeithiol.

50 Fel rhan o'n gwaith pellach, byddwn yn monitro effeithiolrwydd y newidiadau a hefyd yn adolygu cynlluniau gwasanaeth ar gyfer 2010-11. Byddwn hefyd yn ystyried a yw rheolwyr yn cael y wybodaeth gywir sydd ei hangen arnynt i reoli ac i ba raddau y mae prosesau busnes wedi'u halinio â dulliau cynllunio a rheoli ariannol.



## Dim ond yn rhannol y mae trefniadau ar gyfer gwneud y defnydd gorau o adnoddau o staff yn cefnogi gwelliant

**Mae gwendidau o ran y trefniadau presennol ar gyfer gwneud y defnydd gorau o staff, er y caiff y rhain eu cydnabod ac mae camau gweithredu yn cael eu cynllunio**

51 Mae'r Cyngor wedi dangos gallu i newid trefniadau staffio a rheoli er mwyn sicrhau ei fod mewn sefyllfa well i gyflawni gwelliant. Cwblhaodd broses o ailstrwythuro'r dull rheoli yn ddiweddar gydag ystod o benodiadau rheoli newydd yn cynnwys swyddi ar y cyd.

52 Mae'r gwasanaeth adnoddau dynol traddodiadol yn wynebu'r angen am newid sylweddol yn cynnwys newid y gydberthynas â gwasanaethau. Mae adolygiad rheoli newid wedi'i gwblhau ond nid yw wedi'i weithredu'n llawn eto.

53 Mae rhai o'r sylfeini rheoli pobl yn effeithiol yn cael eu gosod ond mae'r broses hon yn anghyflawn. Mae rhai polisïau wedi'u diweddaru ond mae eraill nad ydynt yn gyfredol mwyach; mae trefniadau arfarnu diwygiedig ar waith ond mae'r ansawdd yn amrywiol a phrin iawn yw'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd.

54 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno rhaglen hyfforddi ym maes arwain/rheoli gan ddefnyddio darparwr allanol. Croesawyd y rhaglen hon ond nid yw'n glir sut y caiff ei datblygu a sut y caiff y sgiliau a ddysgir eu defnyddio yn y ffordd orau.

55 Mae proses o gynllunio'r gweithlu ar waith mewn rhai meysydd gwasanaeth ond nid yw wedi'i datblygu'n ddigonol ar lefel gorfforaethol ac felly nid oes gan y Cyngor gynllun ar gyfer y gweithlu o hyd sy'n gysylltiedig â'i flaenoriaethau corfforaethol. Cydnabyddir y diffyg hwn ac mae'r Cyngor yn ymrwymedig i lunio Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu a chynllun gweithredu yn ystod 2010-11.

56 Roedd y Cyngor yn araf i weithredu ei system gwybodaeth yn llawn i gefnogi'r broses o reoli pobl. Fodd bynnag, mae'r system hon bellach yn dechrau cael ei defnyddio'n briodol ac mae'r Cyngor wedi gallu gwneud rhywfaint o gynnydd i leihau absenoldeb oherwydd salwch.

57 Mae'r Prif Weithredwr wedi cynnal cylch helaeth o sioeau teithio a chyfarfodydd gyda staff. Mae'r rhain wedi cael eu gwerthfawrogi ond nid yw'n glir bod strategaeth ehangach eto ar gyfer ymgysylltu â staff.

**Mae'r dull rheoli ariannol yn gadarn ar y cyfan ond nid yw'r broses cynllunio ariannol yn y tymor canolig wedi'i datblygu'r ddigonol a megis cychwyn mae'r dasg o foderneiddio sylfaen asedau'r Cyngor**

58 Mae'r Cyngor wedi dangos dull rheoli cyllidebol cadarn ac mae ganddo lefel priodol o gronfeydd wrth gefn. Roedd arian Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11 yn fwy nag a ddisgwyliwyd i ddechrau. Ymgorfforodd y gyllideb £2.2 filiwn o gynilion ac arbedion effeithlonrwydd a, gyda'r arian ychwanegol hwn, roedd £500,000 yn gallu cael ei ychwanegu at gronfeydd wrth gefn ar gyfer gweithredu newidiadau Statws Sengl a £2.2 miliwn i gynnal gwariant 'untro' yn cynnwys gwaith ar rai o'r blaenoriaethau corfforaethol.

59 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd yn llawer anoddach yn y dyfodol ac mae ymateb i'r her ariannol

yn y dyfodol yn dechrau. Mae wedi sefydlu rhaglen effeithlonrwydd gyda phedair ffrwd waith sy'n canolbwyntio ar asedau, rheoli newid a herio gwasanaethau, cydweithredu, ac effeithlonrwydd cyffredinol. Disgwylir i'r ffrydiau gwaith hyn gyfrannu at arbedion sy'n cyfateb i tua £4 miliwn y flwyddyn hyd at o leiaf 2013-14. Megis cychwyn y mae'r gwaith hwn.

60 Mae'r Cyngor wedi gwahodd CLILC i gynnal adolygiad cymheiriaid i edrych ar gosteffeithiolrwydd yn ystod y gwanwyn. Bydd yr adolygiad hwn yn helpu i nodi lle mae costau yn gymharol uchel.

61 Bu gan y Cyngor ddull traddodiadol effeithiol o ymdrin â rheoli ariannol ond bydd angen iddo ddod yn fwy rhagweithiol o ran cynllunio ariannol er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau. Roedd Cynllun Corfforaethol 2009-2012 yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth ariannol am ddarparu adnoddau ar gyfer yr amcanion. Cyfeirir at yr angen i gyfeirio adnoddau at flaenoriaethau hefyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ebrill 2010 ond nid yw'r Cynllun yn nodi unrhyw ddyraniadau refeniw yn erbyn y blaenoriaethau.

62 Bydd angen i'r Cyngor hefyd ystyried a oes angen iddo wella'r ffordd y darperir gwybodaeth ariannol. Cafwyd na allai aelodau etholedig egluro p'un a yw'r Cyngor yn cynnig gwerth am arian na chyfeirio at feysydd lle yr oedd wedi gwella ei ddulliau gwerth am arian.

63 Cydnabyddir y dasg o resymoli a moderneiddio sylfaen asedau'r Cyngor ac mae gwaith i fynd i'r afael â hyn yn dechrau. Mae'r Cyngor wedi diweddaru ei Gynllun Rheoli Asedau yn rheolaidd ond ni all leihau'r ôl-groniad o atgyweiriadau na chynnal ei sylfaen asedau tir ac adeiladau yn llawn. Bydd yn ystyried ei asedau fel un ffrwd waith yn y rhaglen effeithlonrwydd ac mae hefyd yn cynnal ymarfer mapio gyda phartneriaid o dan Gytundeb Cyflawni Lleol Bwrdd Gwasanaeth Lleol.

64 Fel rhan o'n gwaith pellach, byddwn yn ystyried p'un a oes gan y Cyngor gynlluniau priodol ar gyfer defnyddio TGCh yn strategol i gynnal gwelliant.

